**Dyddiad cyhoeddi** Hydref 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy’n defnyddio gwasanaethau’r GIG**

***NHS***
***National Institute for Health and Clinical Excellence***

# Sefydlogi wal y frest sy'n ffustio ag offer atgyfnerthu metel

*Mae 'canllawiau ymyriad’ NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae’r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio offer atgyfnerthu metel yn y GIG i drin pobl sydd â wal y frest sy'n ffustio. Mae’n egluro’r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae canllawiau ymyriad yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw’r canllawiau yn cynnwys p’un a ddylai’r GIG ariannu’r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph’un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae’n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p’un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio wal y frest sy'n ffustio na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae’r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i’ch meddyg i’ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Ychydig iawn o astudiaethau sydd ar gael ar osod offer atgyfnerthu metel i sefydlogi wal y frest sy'n ffustio. Fodd bynnag, ym mhob astudiaeth dangoswyd bod y driniaeth yn gweithio'n dda. Yn ogystal â hyn, nid oes pryderon mawr am ddiogelwch y driniaeth hon i gleifion sydd wedi cael trawma gyda lleihad yn nefnydd yr ysgyfaint.

Felly, mae NICE wedi penderfynu y gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â wal y frest yn ffustio, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd sydd â phrofiad o reoli wal y frest sy'n ffustio benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon._Dylai'r tîm gynnwys arbenigwyr gofal critigol, ffisigwyr y frest a llawfeddygon thorasig sydd wedi cael eu hyfforddi'n benodol ar gyfer y driniaeth.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer wal y frest sy'n ffustio.*
*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Offer atgyfnerthu metel ar gyfer brest sy'n ffustio

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'gosod offer atgyfnerthu asennau metel i sefydlogi wal y frest sy'n ffustio'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae'r driniaeth hon ar gyfer pobl â brest sy'n ffustio, cyflwr a achosir fel arfer gan drawma lle mae sawl asen wedi torri yn caniatáu i ran o wal y frest symud yn annibynnol ac ymyrryd ag anadlu arferol. Efallai y bydd angen i'r claf gael peiriant i'w helpu i anadlu (gwyntiedydd) nes bod yr asennau sydd wedi torri wedi gwella.

Nod y driniaeth yw lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar wyntiedydd ac osgoi cymhlethdodau fel niwmonia a phoen barhaus. Caiff y driniaeth ei chynnal gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Gwneir toriadau i amlygu'r asennau rhydd sydd angen eu trin. Bydd yr asennau sydd wedi'u heffeithio yn cael eu hatgyweirio ag offer atgyfnerthu metel wedi'i osod â sgriwiau neu wifrau.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod offer atgyfnerthu metel yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 37 o gleifion, datblygodd pedwar allan o 18 a gafodd y driniaeth niwmonia o fewn tair wythnos o gymharu ag 17 allan o 19 a gafodd eu trin â chymorth anadlu mecanyddol. Ar gyfartaledd roedd y cleifion yn y grŵp a gafodd y driniaeth yn aros mewn gofal critigol am 16.5 diwrnod a'r rheini yn y grŵp a gafodd gymorth anadlu am 26.8 diwrnod. Ar gyfartaledd roedd cynhwysedd yr ysgyfaint ar ôl 12 mis (a fesurir gan gyfaint yr aes a anadlir i mewn mewn un eiliad) yn 96% arferol yn y grŵp a gafodd y driniaeth ac 80% yn y grŵp a gafodd gymorth anadlu._Aeth 11 o gleifion a gafodd y driniaeth yn ôl i weithio'n llawn amser o fewn chwe mis, o gymharu â dim ond un o'r cleifion a gafodd eu trin â chymorth anadlu.

Nododd astudiaeth o 66 o gleifion a gafodd y driniaeth fod defnydd ysgyfaint normal gan 26 allan o 50 o gleifion pan edrychwyd arnynt ar ôl chwe mis.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y dylai arolwg o ba mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio gynnwys edrych ar lefelau goroesi, yr amser a dreulir ar y gwyntiedydd, sefydlogi wal y frest yn yr hirdymor, llai o boen a boddhad y claf.

### Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 42 o gleifion a gafodd y driniaeth, ni chafwyd marwolaethau yn y 32 o gleifion heb niwed i'r ysgyfaint. Bu farw tri allan

o'r deg claf â niwed i'r ysgyfaint: dau o waedu difrifol ac un o fadredd â methiant organau lluosog.

Mewn dwy astudiaeth o 66 a 23 o gleifion, roedd chwech allan o 57 o gleifion mewn poen parhaus pan edrychwyd arnynt ar ôl chwe mis a phump allan o 21 o gleifion mewn poen parhaus ar ôl tri mis. Gwnaeth tynnu'r offer atgyfnerthu asennau a sgriwiau metel ar ôl chwe mis helpu i leddfu poen pum claf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys yr offer atgyfnerthu'n symud neu'n torri, y mewnblaniadau'n achosi anaf i'r ysgyfaint, y sgriwiau'n llacio neu'n gwahanu, haint ac alergedd i'r metel.

## Rhagor o wybodaeth am anafiadau i wal y frest

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar anafiadau i wal y frest, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae canllawiau ymyriadau yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'gosod offer atgyfnerthu asennau metel i sefydlogi wal y frest sy'n ffustio'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael www.nice.org.uk/guidance/IPG361*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-421-8
N2369 1P October 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE